Beibl i Blant
yn cyflwyno

Dyn Cyfoethog a Dyn Tlawd



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus

addaswyd gan: M. Maillot; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2015 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Iesu'n gwybod
fod llawer o'r arweinwyr
crefyddol yn caru
arian yn fwy na Duw.

Dywedodd hanes dau berson wrthyn nhw, er mwyn egluro bod dim pwynt bod yn gyfoethog heb Dduw.

Dydy arian ddim yn gallu prynu lle i chi yn y nefoedd gyda Duw.

Roedd yna ddyn cyfoethog oedd yn berchen ar lawer o ddillad hardd, drud. Roedd e'n gwisgo fel brenin.

Roedd y dyn cyfoethog hwn hefyd yn bwyta'n dda. Roedd pob pryd fel gwledd fawr.



Roedd ganddo fe gymaint o arian fel ei fod yn gallu prynu unrhyw beth roedd e'n dymuno i frecwast, cinio, swper – neu ar gyfer byrbrydau.



Roedd cardotyn newynog, tlawd a sâl yn gorwedd wrth ymyl mynedfa cartref y



dyn cyfoethog.

Ei enw oedd Lasarus.




Roedd briwiau ar hyd corff Lasarus druan. Efallai ei fod yn dioddef o afiechyd.

Efallai bod pobl wedi bod yn gas ac wedi ei daro gan achosi briwiau a chleisiau.

Efallai
bod ganddo
friwiau am
nad oedd e'n
bwyta bwyd
maethlon fel
llaeth, cig a
llysiau.

Roedd Lasarus eisiau bwyd yn ofnadwy. Byddai wedi bod yn hapus i fwyta briwsion oddi ar fwrdd y dyn cyfoethog.

Roedd cwn strae weithiau'n mynd at y cardotyn druan.

Bydden nhw'n ei snwffian ac yn llyfu ei friwiau.

Roedd hi'n ymddangos fel petai neb yn poeni bod Lasarus angen bwyd.

Un diwrnod, wnaeth Lasarus ddim deffro.

Roedd y cardotyn druan, newynog, unig hwn wedi marw.

O'r funud y
bu Lasarus farw,
dechreuodd deimlo
llawenydd.

Dywedodd Iesu fod angylion wedi mynd ag e at Abraham. Cafodd Lasarus ei gysuro gan Dduw.

Fe wnaeth y dyn cyfoethog farw hefyd. Doedd ei holl gyfoeth ddim yn gallu arbed ei fywyd.

Pan mae marwolaeth yn dod, does neb yn gallu ei rwystro.

Cafodd y dyn cyfoethog ei gladdu.
Efallai iddo gael angladd fawr.

Efallai bod pobl wedi canmol y dyn cyfoethog am fod yn glyfar ac yn llwyddiannus.

Ond doedd y ganmoliaeth yn dda i ddim iddo. Roedd y dyn cyfoethog wedi mynd i Uffern.

Yn Uffern, dyma'r dyn cyfoethog yn gweiddi, "Fy nhad Abraham, ...

... anfona Lasarus ata i iddo gyffwrdd blaen ei fys mewn dŵr a'i roi ar fy nhafod i'w hoeri; dw i mewn poen ofnadwy yn y fflamau yma."

Dyma Abraham yn ateb, "Fy mab, roedd gen ti bopeth roeddet ti eisiau ar y ddaear, ond doedd gan Lasarus ddim byd.





Bellach mae e yma'n cael ei gysuro, a tithau'n cael dy arteithio. Does neb yn gallu croesi'r agendor rhyngot ti a ni."

"Mae gen i bum brawd. Plîs wnei di anfon Lasarus i'w rhybuddio," meddai'r dyn cyfoethog.

“Dydw i ddim am iddyn nhw ddod i'r lle ofnadwy yma.”

“Mae Gair Duw gan dy frodyr,” atebodd Abraham.

"Os nad ydyn nhw'n credu'r Beibl, fyddan nhw ddim yn gwrando chwaith os bydd Lasarus yn dod yn ôl yn fyw ar ôl marw."



Ar ôl i Iesu orffen y stori am y dyn cyfoethog a Lasarus, tybed a wnaeth yr arweinwyr crefyddol holi eu hunain, "Ydw i'n caru cyfoeth yn fwy na Duw?"

Roedden nhw nawr yn gwybod beth fyddai'n digwydd os nad oedden nhw'n gwrando ar Air Duw.

Dyn Cyfoethog a Dyn Tlawd

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Luc 16

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16